Medi 2025

**Rhaglen waith y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth**

## Y cefndir

Mae'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (y Grŵp Cynghori) wedi'i sefydlu mewn ymateb i Argymhelliad 1 y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, y mae ei adroddiad terfynol (a gyhoeddwyd ar 18 Ionawr 2024) yn tynnu sylw at heriau cynyddol sy'n wynebu democratiaeth yng Nghymru - yn enwedig lefelau isel o wybodaeth ac ymgysylltu â sefydliadau democrataidd ymhlith y cyhoedd.

Argymhellodd y Comisiwn gyfres o ddiwygiadau i gryfhau democratiaeth yng Nghymru, gan gynnwys creu panel arbenigol i gefnogi arloesi democrataidd a sicrhau ymgysylltiad cynhwysol â'r gymuned. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn ac ymrwymodd i wneud y canlynol:

- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau allweddol gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, Comisiwn y Senedd, llywodraeth leol, ac eraill.
- Dyrannu cyllid i gefnogi diwygio cyfansoddiadol, gan gynnwys rhaglen waith i ddilyn ymlaen o waith y Comisiwn.
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu ar unwaith i wella ymgysylltu ac arloesi democrataidd.

Mae Cadeirydd ac aelodau'r Grŵp Cynghori wedi'u penodi hyd at wanwyn 2026, gyda'r posibilrwydd o estyniad. Ar hyn o bryd, nid yw'r rhaglen waith yn ymrwymo i amserlenni penodol ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu. Mae hyn yn adlewyrchu natur archwiliol a chydweithredol y gwaith, a'r angen i barhau i ymateb i dystiolaeth, mewnbwn gan randdeiliaid, a blaenoriaethau sy'n esblygu.

Mae'r rhaglen waith ddrafft hon yn nodi sut y bydd y Grŵp Cynghori yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad hwn, gan adeiladu ar fentrau a fframweithiau deddfwriaethol presennol.

## Cwmpas y Gwaith

Mae'r Grŵp Cynghori wedi cael y dasg o gyflwyno rhaglen waith effaith uchel, â ffocws. Mae cwmpas y gwaith hwn yn adlewyrchu'r uchelgais i gryfhau democratiaeth Cymru a'r angen am ddulliau cynhwysol, cyfranogol sy'n grymuso dinasyddion ac yn meithrin gallu sefydliadol ar gyfer arloesi democrataidd.

Mae'r rhaglen waith wedi'i strwythuro o amgylch tair uchelgais craidd:

- **Grymuso Dinasyddion Drwy Addysg a Gwybodaeth Ddemocrataidd**
  Bydd y Grŵp yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod gan bawb yng Nghymru — yn arbennig pobl ifanc a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol — yr wybodaeth, yr hyder a'r cyfleoedd i gymryd rhan ystyrlon mewn bywyd democrataidd.

- **Cryfhau Diwylliant Gwleidyddol ar gyfer Cymryd Rhan a Thrafod**
  Gan gydnabod bod rhaid estyn y ffordd y mae dinasyddion yn cymryd rhan mewn democratiaeth y tu hwnt i etholiadau, bydd y Grŵp yn asesu sut i feithrin diwylliant o gyfranogiad yn sefydliadau gwleidyddol Cymru.

- **Gosod Sylfeini ar gyfer Egwyddorion Cyfansoddiadol**
  Bydd y Grŵp yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o ddatblygu proses gyfranogol ar gyfer nodi set a rennir o egwyddorion a gwerthoedd cyfansoddiadol i Gymru.

Mae'r rhaglen waith hon yn nodi meysydd blaenoriaeth y gellir eu gweithredu yn y tymor byr. Bydd y camau tymor byr hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer gweithgarwch tymor hwy y gellid ei ddatblygu yn nhymor nesaf y Senedd.

Rydym yn rhagweld y bydd amserlenni mwy manwl yn dod i'r amlwg wrth i'r rhaglen ddatblygu ac wrth i ffrydiau gwaith penodol gael eu harchwilio'n fwy manwl.

Mae'r cwmpas hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i lywodraethu cynhwysol, llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac iechyd democrataidd hirdymor.

**Crynodeb o Themâu'r Gweithgarwch a'r Camau Gweithredu Arfaethedig**

| Thema | Camau Gweithredu Tymor Byr |
|---|---|
| **Grymuso Dinasyddion trwy Addysg a Gwybodaeth Ddemocrataidd** | • Sesiynau tystiolaeth ar Gwricwlwm Cymru a gweithgareddau cyfredol i ddarparu addysg ddemocrataidd.<br>• Cynlluniau peilot o brosesau cyfranogol<br>• Datblygu egwyddorion a chynigion ar gyfer addysg ddemocrataidd y tu hwnt i ysgolion. |
| **Cryfhau Diwylliant Gwleidyddol ar gyfer Cyfranogiad a Thrafod** | • Asesu aeddfedrwydd sefydliadau gwleidyddol i gyfranogi.<br>• Adolygu modelau rhyngwladol o newid diwylliant a thrafod.<br>• Cynnwys gweision sifil a gwleidyddion mewn prosesau trafod i edrych ar lwybrau i newid diwylliant yn ymwneud â chysylltu â'r cyhoedd.<br>• Archwilio sut i gryfhau cyfranogiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Gosod Sylfeini ar gyfer Egwyddorion Cyfansoddiadol** | • Casglu tystiolaeth i ddeall yr ystyriaethau allweddol ar gyfer datganiad cyfansoddiadol o'r fath.<br>• Archwilio a dysgu o enghreifftiau rhyngwladol o greu cyfansoddiad cyfranogol. |